# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 27 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Gwaith Dur Corus

**C11 Janet Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd yn dilyn trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y digwyddiadau diweddar yng ngwaith dur Corus, Port Talbot? (OAQ14222)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Er fy mod i mewn cysylltiad agos â'r datblygiadau diweddaraf, mae hi'n rhy gynnar i ystyried cymryd camau cyn i'r ymchwiliad sy'n cael ei wneud ar y cyd gan yr heddlu a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ddod i'w gasgliadau, gyda chefnogaeth y cwmni a'r undebau llafur. Yr ydym wedi cynnig ein cydweithiad wrth sicrhau y gwneir pob ymdrech i gael hyd i achos y digwyddiad, ac y bydd y gwersi yn cael eu dysgu cyn gynted ag y bo modd.

### Pwerau a Threfniadau Etholaethol y Cynulliad Cenedlaethol

**C12 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba gyrff a sefydliadau allanol fyddai'n cael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r comisiwn annibynnol a sefydlwyd i werthuso pwerau a threfniadau etholaethol y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ14196)

**Prif Weinidog Cymru:** Mewn egwyddor, bydd y comisiwn annibynnol yn gweithio'r ffordd arall, oherwydd bydd hawl gan yr unigolion a'r cyrff sydd am roi tystiolaeth wneud hynny heb orfod cael eu gwahodd.

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ14207) yn ôl.*

### Ail Adroddiad Cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd

**C14 Phil Williams:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried ei ymateb i ail adroddiad cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ14195)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r adroddiad wedi bod yn destun trafod yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac mae'r gweithgor ehangu, yr wyf i yn ei gadeirio, hefyd wedi ystyried yr adroddiad. Yr ydym wedi cael ar ddeall yn ddiweddar bod y Comisiwn Ewropeaidd am gyhoeddi adroddiad dros dro fis Ionawr y flwyddyn nesaf, ac felly fe ellir bod yn well gohirio ymateb nes ein bod wedi gweld yr adroddiad hwnnw, ac ar ôl i'r comisiwn gynnal cyfres o weithdai ym Mrwsel lle bydd yr aelod-wladwriaethau sy'n cyfrannu yn trafod themâu'r adroddiad yn fanylach.

### Lleoliad Swyddfeydd y Cynulliad yng Ngogledd Cymru

**C15 Alun Pugh:** Yn ei rôl fel cydlynydd polisi Gogledd Cymru, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar leoliad swyddfeydd y Cynulliad yng Ngogledd Cymru? (OAQ14179)

**Prif Weinidog Cymru:** Rhoddodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ar 19 Hydref, yn cyhoeddi bwriad y Cabinet i gynnal adolygiad hirdymor o leoliad swyddfeydd y Cynulliad. Bwriad yr adolygiad yw cynyddu nifer staff y Cynulliad sy'n gweithio y tu allan i Gaerdydd. Mae'n rhy gynnar i roi niferoedd penodol ar gyfer ranbarthau penodol, ond un elfen o'r adolygiad fydd y cyfle i gynyddu presenoldeb y Cynulliad yn y gogledd.

Yn y cyfamser, yr ydym wrthi'n lleoli swyddi newydd i staff y Cynulliad y tu allan i Gaerdydd wrth greu'r Arolygiaeth Safonau Gofal, a fydd yn sefydlu swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru erbyn y flwyddyn nesaf. Mae hynny'n golygu ein bod yn disgwyl cynyddu ein presenoldeb yn y gogledd yn ein hadeiladau presennol ym Mae Colwyn a Chaernarfon a phrydlesu swyddfa newydd yn yr Wyddgrug. Bydd cyfanswm o 75 o weithwyr yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn cael eu lleoli yn y swyddfeydd hyn yn y gogledd erbyn Ebrill 2002.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Casgliadau Adroddiad Rees

**C6 Peter Black:** I ba raddau y mae'r Gweinidog yn llwyddo i weithredu casgliadau adroddiad Rees? (OAQ14250)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cyhoeddwyd adroddiad Rees, sy'n cynnwys 54 o brif argymhellion o dan dri phrif deitl, yng nghanol mis Mehefin. Mae cynnydd wedi'i wneud wrth fwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion ym mhob un o'r tri. Gweithredwyd, yn gyflym, yr argymhellion a alwai am weithredu'n syth—megis dyblu, bron, y cronfeydd mynediad a chaledi a oedd ar gael, a rhoi canllawiau mwy cyson ynglŷn ag anelu'r cronfeydd hynny.

### Datblygu Rôl Cynorthwywyr Dosbarth

**C7 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau o ran datblygu rôl y cynorthwywyr dosbarth yn ysgolion Cymru? (OAQ14257) [R]

**Jane Davidson:** Nid oes cynlluniau gennyf ar hyn o bryd i ehangu swyddogaethau cynorthwywyr dosbarth.

### Canllaw Ar-lein

**C8 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Canllaw Ar-lein? (OAQ14237)

**Jane Davidson:** Rhan bwysig a chyfannol ymgyrch y Cynulliad i wella gwasanaethau i bobl ifainc, o dan yr agenda 'Ymestyn Hawliau' yw Canllaw Ar-lein. Cyflwynais Canllaw Ar-lein ar 26 Medi 2001.

### Cymhwyster Gorfodol mewn Nam ar y Clyw

**C9 Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar argaeledd y cymhwyster gorfodol mewn nam ar y clyw yng Nghymru? (OAQ14228)

**Jane Davidson:** Mae dwy ganolfan sydd wedi'u cymeradwyo yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau i athrawon plant sydd â nam ar eu clyw, er y mynegwyd pryder am ddyfodol darpariaeth hyfforddi.

Gofynnais i'm swyddogion drafod y mater hwn â'r darparwyr hyfforddiant a bwriadaf ofyn i'r prosiectau cynllunio anghenion addysgol arbenigol rhanbarthol ystyried darpariaeth y gwasanaethau i blant â nam ar eu clyw ledled Cymru y flwyddyn nesaf.

## Cadw Pobl Ifanc yng Nghymru

**C10 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr angen i gadw ein pobl ifanc mwyaf talentog yng Nghymru? (OAQ14266)

**Jane Davidson:** Medrau a doniau ein pobl ifainc yw'r allweddau i'n llwyddiant yn y dyfodol. Drwy ein strategaethau economaidd ac addysg a dysgu gydol oes, anelwn at greu'r diwylliant hyfyw, y cyfleoedd dysgu o safon dda, a'r swyddi uchel eu cyflogau a'u medrau a fydd yn annog pobl ifainc o bob ardal a chefndir i ddatblygu a defnyddio eu medrau yng Nghymru.

## Cynllun Peilot y Fagloriaeth Gymreig

**C11 Jonathan Morgan:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynllun peilot y fagloriaeth Gymreig arfaethedig? (OAQ14265)

**Jane Davidson:** Y Cyd-bwyllgor Addysg Cymru a gafodd y contract i ddatblygu ac arloesi bagloriaeth Gymreig ym mis Mehefin. Ar 27 Medi, cyhoeddais becyn gwybodaeth CBAC am y falgoriaeth Gyrmreig, a oedd yn cynnwys ffurflen i ysgolion a cholegau gofestru bod ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect arloesi. Cafwyd ymateb calonogol gan ysgolion a cholegau, ac mae CBAC yn disgwyl penderfynu pa ysgolion a cholegau fydd yn cymryd rhan yng ngham cyntaf y cynllun arloesi ym mis Rhagfyr. Bwriedir i'r don gyntaf o fyfyrwyr ddechrau astudio ar gyfer y fagloriaeth Gymreig ym Medi 2003.

## Cyd-bwyllgor Addysg Cymru

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu adrodd yn ôl i'r Cynulliad yn dilyn y penderfyniad a basiwyd ar 16 Hydref, 2000, mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru? (OAQ14255) [W]

**Jane Davidson:** Yr wyf yn disgwyl gallu rhoi adroddiad i'r Cynulliad cyn hir.

## Statws Ysgolion Sefydledig

**C13 Lorraine Barrett:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu statws ysgolion sefydledig yng Nghymru? (OAQ14246)

**Jane Davidson:** Nag oes. Yr awdurdodau addysg lleol sy'n cynnal ysgolion sefydledig. Fel sy'n digwydd yn yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion a chyflogi staff, ond yr AALl yw'r awdurdod derbyn a chyflogwr staff i ysgolion cymunedol ac ysgolion dan reolaeth wirfoddol. Mae ysgolion sefydledig yn wahanol hefyd am eu bod yn perchen ar eu safleoedd. Mae 12 o ysgolion sefydledig yng Nghymru.

Ar y cyfan, mae'r ysgolion sefydledig yn gweithio'n dda gyda'r awdurdodau cynnal ac ysgolion lleol eraill. Os ceir anawsterau, maent yn ymwneud fel arfer â derbyniadau. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol ar awdurdodau derbyn i ymgynghori â'i gilydd ynglŷn â'u trefniadau derbyn. Mae'r Mesur Addysg yn adeiladu ar hyn drwy ddarparu ar gyfer fforymau derbyniadau gorfodol. Byddwn yn ymgynghori ynglŷn â threfniadau fforymau o'r fath yng Nghymru, ond yr wyf yn credu y byddant yn cynnig cyfle i wella cydlynu trefniadau derbyn, er lles rheini a disgyblion.

## Canran Sir y Fflint o Gyllid Ychwanegol ar gyfer Addysg

**C14 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ganran y bydd Sir y Fflint yn ei chael o'r £293 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer addysg a gyhoeddwyd yn adroddiad Prif Weinidog Cymru? (OAQ14275)

**Jane Davidson:** Mae £293 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion dros y tair blynedd 2001-02 i 2003-04: sef £85.744 miliwn yn 2001-02, £100.124 miliwn yn 2002-03 a £107.124 miliwn yn 2003-04.

Ym mhob un o'r tair blynedd, bydd £54.939 miliwn o'r cyfanswm yn cael ei gynnwys yn nyraniadau cyfalaf blynyddol yr awdurdodau lleol—ariannu cyfalaf cyffredinol. Nid yw dyraniadau awdurdodau unigol yn cael eu pridiannu i wasanaethau unigol; mae pob awdurdod yn penderfynu sut i ddefnyddio ei ddyraniad. Mae Sir y Fflint wedi nodi, o gyfanswm ei hariannu cyfalaf cyffredinol, sef £12.343 miliwn i 2001-02, ei bod yn defnyddio £2.07 miliwn at ddibenion addysg. Yr awdurdod fydd yn penderfynu ar gyfer 2002-03 a 2003-4 wrth bennu ei gyllidebau cyfalaf am y blynyddoedd hynny.

Y Fargen Newydd: mae'r rhaglen ariannu cyfalaf ychwanegol i ysgolion (a ailenwir y grant gwella adeiladau ysgolion ar gyfer 2002-03 ymlaen) yn darparu £19.545 miliwn yn 2001-02, £36.475 miliwn yn 2002-03 a £42.725 miliwn yn 2003-04. Cafodd Sir y Fflint ddyraniad o £974,000 o'r grant hyn i 2001-02, sydd wedi cael ei ddyrannu at brosiectau penodol. Yn ôl y dyraniadau dangosol, caiff Sir y Fflint £1.819 miliwn o ariannu i 2002-03 a £2.130 miliwn i 2003-04.

Cyfrifir am weddill y £293 miliwn ar y cyfan drwy'r rhaglen cyfalaf adeiladau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (sef £9.460 miliwn, £8.710 miliwn a 9.460 miliwn am y blynyddoedd hynny). Mae 12 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn Sir y Fflint ac mae'r rhaglen yn cynorthwyo gwaith mewn wyth ohonynt, gyda grantiau o £700,000 yn cael eu talu dros sawl blwyddyn.

### Cyflwyno Mwy o Gynorthwywyr Dosbarth

**C15 David Davies:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno mwy o gynorthwywyr dosbarth i ysgolion Cymru ac a fydd ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol? (OAQ14263)

**Jane Davidson:** Bydd grantiau i ariannu cefnogaeth a hyfforddiant addysg ar gael i dalu am gyflogi rhyw 400 o gynorthwywyr dosbarth ychwanegol, ac mae'r awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd yr un lefel o gynnydd y flwyddyn nesaf. Nid oes cynlluniau gennyf ar hyn o bryd i roi rhagor o gyfrifoldebau i gynorthwywyr.